

**Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru**

**Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher, 7 Mawrth 2018 yn swyddfa Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion, yr Harbwr, Aberystwyth a ddechreuodd am 10.15am**

**Yn bresennol:**

<b>Aelodau</b>	<b>Yn cynrychioli</b>
Nick O'Sullivan (NOS)	Cadeirydd
Jim Evans	Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
Len Walters	Cymdeithas Pysgotwyr Pysgod Cregyn Gorllewin Cymru
Kevin Denman	Cymunedau Pysgota De a Gorllewin Cymru
John O'Connor	Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru
Mark Roberts	Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn
Trevor Jones	Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai
Emily Williams	RSPB/Cyswllt Amgylchedd Cymru
Colin Charman	Cyfoeth Naturiol Cymru
Holly Whiteley	Pwyllgor Cynghori ar Bysgod Môr Cymru
Dean Parry	Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion
Siôn Williams	Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn
Julian Bray	Llywodraeth Cymru
Mike Jones	“ “
Stuart Evans	“ “
Bethan Jones	“ “
Margaret Rees	“ “
<b>Cafwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:</b>	
Mark Stafford	Llywodraeth Cymru
Leanne Llewellyn	Llywodraeth Cymru
Brett Garner	Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn

<p>1.</p>	<p><b>Croeso ac ymddiheuriadau</b></p> <p>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Carwyn Thomas (CLILC), Brett Garner (Pwyllgor Cynghori ar Bysgodfeydd Lleol), Mark Staffordd (Llywodraeth Cymru) a Leanne Llewellyn (Llywodraeth Cymru).</p> <p>Ymddiheurodd JB i'r grŵp am yr oedi cyn cynnal y cyfarfod, gan esbonio mai'r rheswm dros hyn oedd ymrwymadau eraill staff Llywodraeth Cymru a rhai aelodau eraill. Esboniodd fod Andy Fraser bellach wedi gadael is-adran y Môr a Physgodfeydd a bod y swydd yn wag o hyd. Yn y cyfamser, JB fyddai swyddog arweiniol Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru.</p> <p>Rhodddwyd gwybod i'r aelodau am y trafferthion y mae staff presennol yn eu cael gan fod gwaith sy'n ymwneud â Brexit wedi cael ei ailddyrranu i sawl aelod o staff allweddol. O ganlyniad, roedd hyn yn achosi oedi wrth gyflawni ffrydiau gwaith â blaenoriaeth. Byddai'r pryderon a godwyd gan yr aelodau yn cael eu trafod ymhellach yn ystod y cyfarfod.</p> <p>Roedd ffrydiau gwaith presennol yn cael eu hadolygu ac roedd ffyrdd o wella gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael eu hystyried. Esboniodd JB y byddai cynllun cyflawni diwygiedig yn cael ei ddatblygu er mwyn dangos cynnydd yn erbyn ffrydiau gwaith â blaenoriaeth a thynnu sylw at unrhyw broblemau sy'n achosi oedi wrth gyflawni. Y gobaith yw y bydd yn sicrhau mwy o dryloywder ac yn ennyn hyder ymhlith rhanddeiliaid.</p> <p>Roedd sylwadau'r aelodau yn gadarnhaol; roeddent yn gwerthfawrogi'r gonestrwydd ynghylch y sefyllfa bresennol y mae swyddogion ynddi a'r awgrymiadau a wnaed i'w gwneud yn bosibl i brosiectau symud yn eu blaen.</p>
<p>2.</p>	<p><b>Cymeradwyo nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2017 –</b></p> <p>Cymeradwywyd nodiadau'r cyfarfod fel cofnod cywir, yn amodol ar fân newid i'r rhestr o'r unigolion a oedd yn bresennol. Gofynnodd HW a oedd modd newid 'Pysgod Môr' i 'Bwyllgor Cynghori ar Bysgod Môr Cymru'.</p> <p><b>Cam Gweithredu 1:</b> Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiwygio nodiadau'r cyfarfod blaenorol a newid 'Pysgod Môr' i 'Bwyllgor Cynghori ar Bysgod Môr Cymru'.</p>
<p>3.</p>	<p><b>Materion sy'n codi / Camau Gweithredu –</b> Gan na chodwyd unrhyw faterion pellach, aeth JB â'r aelodau drwy'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol, gan esbonio bod Camau Gweithredu 1, 2(b) a 3 wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, byddai'r cam gweithredu mewn perthynas â 2(a) yn parhau. Byddai Camau Gweithredu 3 a 4 yn cael eu trafod yn fanylach fel rhan o'r eitemau perthnasol ar yr agenda.</p> <p>Dywedwyd wrth yr aelodau y byddent yn gallu cyflwyno gwaith â blaenoriaeth o hyd i'w ystyried.</p>
<p>4.</p>	<p><b>Adroddiad ar Weithrediadau –</b> Derbyniodd yr aelodau yr adroddiad a ddarparwyd. Rhoddodd JB y wybodaeth ddiweddaraf am feysydd allweddol a oedd yn cynnwys cregyn moch; rhoddwyd gwybod i'r aelodau mai'r farn oedd bod tua 20% o'r fflyd bellach yn weithredol yn y bysgodfa cregyn moch.</p> <p>Rhodddwyd gwybod i'r aelodau bod y cwch RIB 12m newydd â chaban o'r enw Catrin bellach wedi cael ei ddarparu. Mae'n destun treialon môr yn y gogledd fel rhan o'r broses o'i gomisiynu.</p>

	<p>Mae'r Sefydliad Rheoli Morol wedi dewis nifer o gychod neu longau yng Nghymru ar hap er mwyn ymchwilio i bŵer y motor, a byddai cydweithwyr yn Marine Scotland yn gwneud y gwaith hwn.</p> <p>Roedd y tîm Gweithrediadau yn gweithio ar gais am arian gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop o dan yr erthygl rheoli a gorfodi er mwyn sicrhau y byddai pob cwch dan 10m yng Nghymru yn gallu rhoi gwybod am ddalfeydd yn electronig a darparu system fonitro cychod y glannau hefyd. Mae swyddogion yn gweithio ar brosiect ar y cyd â gweinyddiaethau eraill y DU mewn perthynas â'r ddwy eitem hyn.</p> <p>Roedd ymchwiliadau a nifer o achosion wedi arwain at erlyniad yn ddiweddar, a byddai'r llys yn gwrandao ar achosion pellach erbyn diwedd mis Mawrth 2018. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod nifer o achosion hanesyddol bellach wedi cael eu prosesu. Esboniodd JB yr heriau y mae swyddogion yn eu hwynebu o ran adnoddau cyfreithiol mewnol ac allanol. Roeddent bellach yn anelu at gyflwyno ffeiliau achos i'r ystafell Weithrediadau yn Aberdaugleddau o fewn chwe wythnos i achos o dorri'r rheolau gael ei ganfod.</p> <p>Cafwyd trafodaeth fras hefyd ynghylch llamidyddion wedi tiriog; roedd hyn yn dilyn erthygl newyddion anwybodus a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017. Roedd yr erthygl yn rhoi'r bai ar rwydi pysgota am eu marwolaeth/anafiadau. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod is-adran y Môr a Physgodfeydd wedi llunio poster gwybodaeth er mwyn rhoi gwybod i bysgotwyr. Roedd yr aelodau'n teimlo bod nifer y llamidyddion sy'n cael eu dal fel sgil-ddalfa yng Nghymru yn isel iawn, ond y byddai'n ddefnyddiol llunio adroddiad i ddangos y niferoedd dan sylw yng Nghymru.</p> <p>Mae system ar waith sy'n golygu y gellir ymchwilio i farwolaeth llamhidydd. Gall gweithwyr yn y diwydiant ddefnyddio gwasanaeth am ddim i roi gwybod eu bod wedi gweld llamhidydd sydd wedi marw neu ei anafu. Bydd rhif ffôn yn cael ei roi.</p> <p><b>Cam Gweithredu 2:</b> Y tîm Bioamrywiaeth i roi crynodeb o nifer y llamidyddion sy'n tiriog ar ôl cael eu dal fel sgil-ddalfa yn nyfroedd Cymru a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf hefyd am drafodaeth gynharach ynghylch arolwg ar nifer y llamidyddion yn nyfroedd y DU.</p> <p><b>Cam Gweithredu 3:</b> Barrie John i roi crynodeb o ganlyniadau'r erlyniadau sy'n digwydd ar 8 Mawrth.</p> <p><b>Cam Gweithredu 4:</b> Yr Ysgrifenyddiaeth i roi'r manylion cyswllt y dylai'r aelodau eu defnyddio i roi gwybod eu bod wedi gweld llamhidydd sydd wedi marw neu wedi'i anafu.</p>
5.	<p><b>Crynodeb o'r ffrydiau gwaith allweddol</b> – Anfonwyd dogfen ddiwygiedig at yr aelodau, a oedd bellach yn tynnu sylw at feysydd gwaith â blaenoriaeth, pysgodfeydd datblygol a gwaith i ddatblygu meysydd polisi yn y dyfodol. Esboniodd JB y byddai swyddogion bellach yn canolbwyntio ar y tair prif ffrwd waith â blaenoriaeth, h.y. cregyn bylchog, cregyn moch a choccos, er mwyn bwrw ymlaen â nhw a'u cwblhau. Byddai meysydd gwaith eraill yn symud i fyny'r rhestr wrth i waith arall gael ei gwblhau.</p> <p>Rhoddwyd gwybod i'r aelodau nad oedd y ddogfen ar ei ffurf derfynol eto. Felly, byddai swyddogion yn parhau i ychwanegu gwybodaeth ati yn ôl y gofyn.</p> <p>Derbyniodd yr aelodau y ddogfen, ac roeddent yn teimlo bod y fformat newydd yn llawer mwy eglur ac yn haws ei ddeall.</p> <p>Pan ofynnwyd am amserlen ar gyfer meysydd gwaith allweddol, rhoddwyd gwybod</p>

i'r aelodau y byddai swyddogion yn darparu taenlen sy'n tynnu sylw at dasgau a dyddiadau allweddol er mwyn cyflawni ffrydiau gwaith. Byddai'r daenlen hon ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Cregyn bylchog** – Rhoddodd SE wybod i'r grŵp bod staff yr un mor siomedig â'r aelodau nad oes digon o waith wedi cael ei wneud i gyflawni ffrydiau gwaith allweddol. Esboniodd fod yr ail ddogfen ymgynghori wedi datblygu ers y cyfarfod diwethaf a bod swyddogion bellach yn ymdrechu i'w chwblhau. Yn dilyn ceisiadau a wnaed yn gynharach am gyfnod ymgynghori byrrach, esboniodd SE nad yw'n debygol y byddai'r cyfnod hwn yn cael ei gwtogi, a hynny'n syml oherwydd natur yr ymgynghoriad, a hefyd er mwyn lleihau'r risg y gall adolygiad barnwrol gael ei gynnal.

Roedd pwysau ar amser cyfreithiol yn ffactor mawr hefyd wrth ddatblygu unrhyw ddeddfwriaeth newydd, am fod staff yn gorfod gwneud gwaith sy'n ymwneud â Brexit a chyflawni ymrwymadau gweinidogol eraill.

Esboniodd SE fod trafodaethau a gafwyd yn ddiweddar â'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi tynnu sylw at nifer o broblemau sy'n ymwneud â phwerau sylfaenol Gweinidogion. Er bod ganddynt y pwerau i gyflwyno cynllun trwyddedu hyblyg, esboniodd nad oedd y pwerau hyn wedi cael eu profi'n flaenorol drwy'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Chyfreithiol a oedd yn gyfrifol am ddeddfwriaeth yng Nghymru. O ganlyniad, byddai angen ymdrin â deddfwriaeth fel achos prawf er mwyn sicrhau y byddai'r Pwyllgor yn ei derbyn. Nes bod hyn yn digwydd, ni fyddwn yn gwybod a allwn gyflwyno'r mesurau hyblyg.

**Cregyn moch** – Esboniodd SE fod swyddogion bellach yn ystyried cyflwyno deddfwriaeth newydd mewn dau gam. Byddai'r cyntaf yn cynnwys cynyddu'r Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf i 55m ym mhob ardal a thymor caeedig o bosibl.

Yn ystod y trafodaethau, mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch y cynnig i gyflwyno tymor caeedig. Roeddent yn teimlo y gallai hyn olygu y bydd pysgotwyr a phroseswyr yn wynebu caledi diangen, ac roeddent yn pryderu hefyd am y ffordd y bydd cewyll cregyn moch yn cael eu storio yn ystod y cyfnod caeedig. Awgrymodd yr aelodau nifer o opsiynau eraill y gellid eu hystyried. Roedd y rhain yn cynnwys cyfyngu ar nifer y cewyll sydd gan gychod sy'n pysgota cregyn moch a chyflwyno system fonitro cychod y glannau, gwahardd pysgota mewn man diffiniedig yn barhaol neu am dymor a/neu gyflwyno terfynol misol ar ddalfeydd.

Gan nad oedd manylion y tymor caeedig yn glir, gofynnodd yr aelodau a allai Leanne roi rhagor o fanylion. Cytunodd y swyddogion i ystyried hyn yn gam gweithredu, a byddent yn adrodd yn ôl i'r grŵp.

Esboniodd SE fod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn ddiweddar wedi dangos bod y diwydiant o blaid tymor caeedig. Roedd y Cadeirydd o'r farn bod rhywfaint o ddryswch fel petai ynglŷn â chyflwyno tymor caeedig. Roedd y trafodaethau'n dangos bod dymuniadau pob rhanbarth o ran tymor caeedig yn amrywio, ac awgrymodd yr aelodau y dylid cynnal prosiect peilot yn yr ardaloedd a oedd o blaid tymor caeedig.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod ar ddeall y bydd tymor caeedig yn cael ei gynnig yn yr OS er mwyn galluogi'r bysgodfa i gau os bydd angen.

Awgrymodd yr aelodau opsiynau pellach hefyd a oedd yn cynnwys cyfyngu ar nifer y cewyll, ond y farn gyffredinol oedd y gallai hyn fod yn anodd ei fonitro a'i orfodi, a defnyddio system fonitro cychod y glannau.

**Cam Gweithredu 5:** Leanne Llewellyn i roi'r cynigion amlinellol i'r aelodau ar gyfer

tymor caeedig mewn perthynas â chregyn moch.

**Cam Gweithredu 6:** Er mwyn tawelu meddwl yr aelodau ynghylch yr oedi wrth gyflawni ffrydiau gwaith â blaenoriaeth, JB i lunio datganiad o fwriad sy'n nodi sut y byddai cynnydd yn cael ei wneud yn ystod adeg mor heriol.

**Rheoli cocos** – Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod swyddogion bellach yn bwrw ymlaen ag opsiynau i roi mesurau rheoli addasol ar waith. Byddai cymorthfeydd pellach yn cael eu cynnal yn ystod y misoedd sydd i ddod er mwyn esbonio'r camau nesaf.

**Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop** – Esboniodd BJ mai dim ond 12% o gyfanswm y gronfa sydd ar gael a oedd wedi cael eu dyrannu i brosiectau. Bu oedi yn ystod sawl cam o'r broses.

Roedd yr aelodau'n teimlo bod ymgeiswyr yn cael trafferth i geisio cwblhau'r cais yn llawn, a gwnaethant ofyn a allai lwfans y Cynllun Cynghorwyr Datblygu Busnes Pysgodfeydd gael ei ymestyn. Yn ôl BJ, gan fod y gyllideb yn un ddomestig, nid oedd yn debygol o gael ei hymestyn. Fodd bynnag, byddai'n ceisio cytundeb i ehangu'r cynllun tan ddiwedd 2018. Dywedodd JE ei fod wedi cysylltu ag uwch swyddogion dros e-bost, a oedd wedi gofyn am ragor o wybodaeth am nifer yr ymgeiswyr sy'n debygol o lywio'r adolygiad o'r cynllun.

Wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt, awgrymodd yr aelodau hefyd nad oedd y diwydiant yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael a sut i wneud cais am arian. Hefyd, roedd y broses gwneud cais ar-lein yn achosi problemau i ddarpar ymgeiswyr.

**Cam Gweithredu 7:** Yr aelodau i roi gwybod i JB faint o bobl sy'n bwriadu gwneud cais am gymorth o dan y Cynllun Cynghorwyr Datblygu Busnes Pysgodfeydd, gan gynnwys pryd mae ceisiadau'n debygol o ddod i law a gwerth posibl unrhyw brosiect.

**Cam Gweithredu 8:** HW i lunio dogfen sy'n amlinellu'r hyn y gellir gwneud cais amdano o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a'r broses gwneud cais.

**Cam Gweithredu 9:** Cynigiodd BJ fynd i gyfarfodydd cymdeithasau er mwyn rhoi gwybodaeth i'r aelodau neu gynnal cymorthfeydd er mwyn trafod problemau unigol. Yr aelodau i roi gwybod i gymdeithasau am y cynnig hwn ac adrodd yn ôl i BJ.

**Gorddrysau dianc** – Esboniodd BJ fod arian ar gael o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ac y byddai cymdeithasau neu gorff a gyfansoddwyd yn gallu gwneud cais am arian i dalu'r costau dan sylw. Fodd bynnag, byddai BJ yn gofyn am eglurhad pellach ac yn adrodd yn ôl i'r grŵp.

Cymysg fu ymateb y grŵp i'r defnydd o orddrysau dianc. Roedd rhai o'r aelodau'n gryf o blaid eu defnyddio fel adnodd cadwraeth, tra bod yr aelodau eraill yn teimlo y byddai defnyddio gorddrysau dianc yn achosi problemau pellach o ran colli sgil-ddalfeydd gwerthfawr.

Roedd yr aelodau wedi cael copi o adroddiad ar Fenter Beilot Pysgod Cregyn Cynaliadwy Sir Benfro. Cytunodd y Cadeirydd i ofyn i Sue Barton ddod i'r cyfarfod nesaf er mwyn cyflwyno'r adroddiad yn fwy manwl.

**Cam Gweithredu 10:** BJ i ofyn am eglurhad pellach sy'n esbonio'r arian posibl sydd ar gael i gymdeithasau neu gyrff a gyfansoddwyd a all wneud cais am arian ar gyfer gorddrysau dianc.

**Cam Gweithredu 11:** Y Cadeirydd i wahodd Sue Barton i gyfarfod nesaf Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru er mwyn cyflwyno canfyddiadau ei

hadroddiad ar orddrysau dianc i'r aelodau.

**Cam Gweithredu 12:** Gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno tystiolaeth o fanteision defnyddio gorddrysau dianc. Lluniwyd nifer o adroddiadau yn flaenorol ar y defnydd o orddrysau dianc. Gellir cyflwyno'r wybodaeth hon yn ystod cyfarfod nesaf Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru.

**Prosiect marchnata** – Mae cais sy'n ymwneud â marchnata a hyrwyddo bwyd môr yng Nghymru wrthi'n cael ei ddatblygu gan Reolwr Pysgod Cregyn Cymru er mwyn ystyried pwynt gwerthu unigryw bwyd môr Cymru. Gofynnodd BJ i'r aelodau roi unrhyw syniadau sydd ganddynt i Holly.

**Cam Gweithredu 13:** Yr aelodau i roi manylion mentrau marchnata a hyrwyddo i HW.

**Seafodd Expo Global, Brwsel** – Rhoddodd BJ wybod i'r aelodau mai dim ond dau gwmni sydd wedi cadarnhau y byddent yn bresennol. Dywedodd BJ wrth yr aelodau nad yw'n debygol y byddai Llywodraeth Cymru yn bresennol yn y dyfodol oni fydd mwy o ddiddordeb.

Esboniodd LW fod busnesau bach yn teimlo ei bod yn arddangosfa i fusnesau mawr ac nad oes lle iddynt mewn arddangosfa o'r fath.

**Cam Gweithredu 14:** Cytunodd BJ i ymchwilio i gostau teithio a chynhaliaeth nifer gyfyngedig o fynychwyr nad oeddent yn arddangos.

**Cam Gweithredu 15:** HW i wahodd Caroline Dawson, Rheolwr Prosiect Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a Chlwstwr Bwyd Môr Cymru ym Menter a Busnes, i ddod i un o gyfarfodydd Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru yn y dyfodol er mwyn trafod marchnata a hyrwyddo bwyd môr Cymru.

**Cosbau gweinyddol penodedig** – Mae gwaith wedi mynd rhagddo ar hyn a'r bwriad yw cyhoeddi dogfen ymgynghori yn gynnar ym mis Mai.

**Asesu pysgodfeydd Cymru** – Yn ôl CC, bu oedi wrth gynnal y swp nesaf o asesiadau (mamolion). Mae'r asesiadau 75% yn gyflawn a dylent gael eu cyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Caiff pysgota â chewyll ei asesu nesaf.

**Cregyn y Frenhines** – Cadarnhaodd SE fod Ysgrifennydd y Cabinet bellach wedi cytuno ar yr amodau trwyddedu. Roedd swyddogion bellach yn cael trafodaethau â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill er mwyn ceisio cytundeb. Holodd yr aelodau am y Maint Glanio Lleiaf, gan ofyn a fyddai'n gymwys i ddyfroedd Cymru yn unig. Cadarnhaodd SE y byddai'n gymwys i gychod neu longau Cymru ble bynnag y byddant yn pysgota. Byddai gweinyddiaethau eraill yn cymhwyso'r amod at drwyddedau a gaiff eu rhoi yn eu hardaloedd.

**Cynllun Morol** – Mae'r ymgynghoriad yn fyw o hyd ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Polisi Pysgodfeydd Cyffredin** – Rhoddodd MJ y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau, gan esbonio'n benodol pa rwymedigaethau glanio nad ydynt yn effeithio ar gychod neu longau Cymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gwaith yn cael ei wneud i ystyried y rhywogaethau y gellir cyfyngu ar eu cwota yn sgil rhoi'r rhwymedigaeth lanio ar waith yn llawn ar 1 Ionawr 2019. Bydd draenogiaid y môr yn achosi pryder arbennig i Gymru. Mae'r holl wybodaeth am reoliadau pysgodfeydd ar gael ar y dudalen we ar bysgodfeydd.

**Draenogiaid y môr** – Rhoddwyd papur i'r aelodau a oedd yn amlinellu canlyniadau cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr. Ar y cyfan, roedd y canlyniad yn dda o ran rhywogaethau cwotâu, a chafodd rhai ohonynt eu cynyddu.

Esboniodd MJ fod y Comisiwn Ewropeaidd am wahardd pysgota draenogiaid y

môr yn gyfan gwbl, ond roedd swyddogion o'r DU a gwledydd eraill wedi dadlau'n gryf yn erbyn hynny er mwyn sicrhau bod rhai pysgodfeydd yn gallu parhau. Er nad oedd y canlyniad yn ddelfrydol, llwyddodd swyddogion i gytuno ar gyfaddawd gyda'r Comisiwn er mwyn sicrhau bod pysgodfeydd yn parhau.

Bydd caniatâd i bysgota draenogiaid y môr yn 2018 yn cael ei roi yn fuan i'r rhai y rhoddwyd caniatâd iddynt yn 2017.

### **Pysgodfeydd datblygol**

**Gwrachod y môr** – Rhoddodd MJ wybod i'r grŵp nad oes llawer o wybodaeth ar gael. Nid yw gwrachod y môr yn cael eu prynu oddi wrth Gymru, ac mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda Marine Harvest er mwyn trafod ei gynlluniau.

**Pysgodfa cyllyll môr** – Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod gwaith wedi cael ei gomisiynu ar ddulliau o asesu stociau o gyllyll môr yng Nghymru. Dylai adroddiad fod ar gael erbyn diwedd mis Mawrth; caiff argymhellion eu gwneud i'w hystyried.

**Meysydd datblygu posibl** – Aeth JB drwy'r rhestr o feysydd a nodwyd gan yr aelodau cyn y cyfarfod diwethaf. Ni nodwyd unrhyw eitemau ychwanegol ers y cyfarfod diwethaf.

Wrth i JB fynd drwy'r eitemau ar y rhestr yn eu trefn, cyfeiriodd LW at benderfyniadau polisi a wnaed gan Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch sawl pysgodfa sy'n cynnwys draenogiaid y môr, cregyn bylchog, cramenogion, eog a sewin a gwaharddiad posibl ar lanio cimychiaid wyog. Esboniodd fod y penderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'r pysgodfeydd yn cael effaith niweidiol ar ei incwm ac incwm pysgotwyr eraill. Roedd yn pryderu nad oedd y penderfyniadau a wnaed yn ystyried yr effaith y byddent yn ei chael ar incwm a bywoliaeth y rhai sy'n dibynnu ar y pysgodfeydd hynny.

Aeth LW ymlaen i esbonio nad oedd unrhyw broblemau gydag unrhyw bysgodfa cyn i Lywodraeth Cymru ddechrau rheoli pysgodfeydd yng Nghymru, ond roedd yn ymddangos erbyn hyn fod sawl pysgodfa mewn perygl. Roedd yn teimlo bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ei holl sylw i gynaliadwyedd ac nad oedd yn ystyried effaith penderfyniadau ar bysgotwyr.

Roedd JB yn gwerthfawrogi'r pryderon a godwyd, ond rhoddodd wybod i LW fod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pysgodfeydd yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau eu hyfywedd yn y tymor hir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Esboniodd y Cadeirydd, er bod pawb yn cydymdeimlo, nad oedd pob penderfyniad yn cael ei wneud gan Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru na Llywodraeth Cymru a bod rhai yn cael eu llywio gan benderfyniadau'r Comisiwn Ewropeaidd.

Wrth fynd drwy'r rhestr, roedd JB yn gallu blaenoriaethu'r meysydd gwaith fel a ganlyn gyda chymorth yr aelodau:

- Tystysgrifau allforio – Mae angen rhoi blaenoriaeth uchel i'r rhain gan y bydd eu hangen ar gyfer y diwrnod cyntaf wedi Brexit
- Cofnodi dalfeydd cychod pysgota dan 10m – Bydd angen gwneud hyn yn electronig a rhoi data sy'n bwydo i mewn i dystysgrifau allforio (uchod) a pharodrwydd ar gyfer diwrnod 1 (blaenoriaeth uchel)
- System fonitro cychod y glannau – I'w datblygu ar y cyd â chofnodi dalfeydd cychod pysgota dan 10m – Cymedrol
- Cimychiaid wyog – I'w ystyried o dan Ran II o'r Adolygiad o Gramenogion

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pysgota/genweirio hamdden – Angen rhagor o wybodaeth</li> <li>• Rheoli pysgodfeydd aber Afon Dyfrdwy</li> </ul> <p><b>Cam Gweithredu 16:</b> Trafod ymgynghoriad ESNR yn ystod y cyfarfod nesaf.</p>
6.	<b>Cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr</b> – wedi'i drafod uchod.
7.	<b>Gwrachod y môr</b> – wedi'u trafod uchod.
8.	<p><b>Trefniadau Pontio Ewropeaidd</b> – Rhoddodd SE y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar, gan esbonio bod swyddogion wedi mynd i nifer o gyfarfodydd gyda Defra a gweinyddiaethau datganoledig eraill er mwyn ystyried yr heriau allweddol a wynebir oherwydd Brexit.</p> <p><b>Cam Gweithredu 17:</b> SE i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn fras i'r aelodau am Brexit yn ystod y cyfarfod nesaf.</p>
9.	<p><b>Opsiynau posibl ar gyfer gwella'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid pysgodfeydd</b> – Esboniodd JB fod gohebiaeth wedi dod i law gan aelodau rhai Grwpiau Pysgodfeydd y Glannau yn dilyn y penderfyniad a wnaed yn ystod cyfarfod diwethaf Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru ym mis Hydref 2017 i barhau i atal y grwpiau hyn. Mynegwyd pryderon ynghylch y penderfyniad i gynnal y strwythurau presennol a chanlyniadau'r asesiad o holiadur Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru. Gwnaeth y grŵp drafod pob pryder a godwyd a nodi camau gweithredu perthnasol.</p> <p>Cyflwynwyd dogfen frifio a oedd yn dadansoddi'r ymatebion i holiadur Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru yn llawn. Gofynnwyd i'r aelodau am eu barn ar y sylwadau yn y ddogfen. Rhoddodd JB hefyd restr o opsiynau posibl i'w hystyried ar gyfer gwella'r gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid ac eraill. Cytunodd yr aelodau y byddai'r canlynol yn ychwanegiadau cadarnhaol ac y dylid eu hystyried:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Dylid anfon papurau Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru i aelodau pob Grŵp Pysgodfeydd y Glannau cyn cyfarfod Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru er mwyn eu galluogi i godi pryderon drwy eu cynrychiolydd.</li> <li>2. Dylid ychwanegu crynodeb o gyfarfodydd at wefan Llywodraeth Cymru.</li> <li>3. Ystyriwyd hefyd y broses o gyfathrebu ag unigolion yn y diwydiant pysgota nad ydynt yn ymgysylltu â chymdeithas. Cytunwyd y dylai swyddogion ystyried hyn yn fanylach cyn cytuno ar gamau gweithredu priodol.</li> <li>4. Cytunodd yr aelodau fod angen diweddarau/gwella tudalennau gwe ar y Môr a Physgodfeydd.</li> </ol> <p><b>Cam Gweithredu 18:</b> JB i geisio cadarnhad am nifer yr ymweliadau â'r tudalennau gwe ar y Môr a Physgodfeydd.</p> <p>O ran yr opsiynau eraill a gyflwynwyd, roedd y grŵp yn teimlo na ddylid eu mabwysiadu ar hyn o bryd gan fod pwysau sylweddol ar adnoddau.</p> <p>Hefyd, ystyriwyd ehangu aelodaeth Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru a sicrhau bod staff yn bresennol yn ystod cyfarfodydd. Er ei bod yn ymddangos bod 'bylchau' posibl yn aelodaeth y grŵp, cytunwyd bod strwythur presennol y grŵp yn gweithio a'i fod yn galluogi'r aelodau a swyddogion i ymgysylltu â'i gilydd. Roedd pawb yn teimlo nad oedd angen gwneud rhagor o newidiadau ar hyn o bryd. Byddai hyn yn cael ei adolygu eto ym mis Hydref 2018.</p> <p>Cytunodd yr aelodau hefyd mai cylch gwaith yr aelodau presennol oedd adlewyrchu barn eu cymdeithasau a'u haelodau.</p> <p>Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y Grŵp Cynghori ar Ddyframaethu yn cael ei</p>



	<p>ailsefydlu ac y byddai'n cyfarfod yn fuan. Cytunodd TJ i fod yn bwynt cyswllt rhwng y ddau Grŵp Cynghori.</p>
10.	<p><b>Eitemau er gwybodaeth:</b></p> <p>(i) Canllawiau Arfer Gorau'r Gronfa Ddata ar Offer Pysgota Môr ar Asesu Perfformiad Ariannol Offer Pysgota – Rhoddodd HW wybodaeth ychwanegol amdanynt a dywedodd wrth yr aelodau am gysylltu â hi i gael rhagor o fanylion.</p> <p>Rhoddodd HW wybodaeth hefyd am brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Seafarers UK sy'n rhoi'r cyfle i bob perchennog cwch neu long brynu dyfais arnofio bersonol â thywysydd lleoli am £15 yr uned.</p> <p>(ii) Dogfen ymgynghori ar waith cynllunio morol</p> <p>(iii) Dogfen Cyswllt Amgylchedd Cymru – Priorities for Marine Environment and Fisheries Policy in Wales following the withdrawal from the European Union.</p> <p>(iv) Adroddiad Cryno ar Fenter Beilot Pysgod Cregyn Cynaliadwy Sir Benfro – Bydd Sue Burton yn cael ei gwahodd i'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyflwyniad.</p> <p>Gwnaeth JB longyfarch John O'Connor am ennill gwobr 'Sea Change Champion' World Animal Protection oherwydd ei ymdrechion i gael gwared ag offer pysgota a gollwyd neu a daflwyd o arfordir Sir Benfro am fod cramenogion, adar a morloi yn gallu cael eu dal ynddo a'i fod yn difrodi cynefinoedd hefyd.</p> <p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</b> Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'r cyfarfod ar 18 Ebrill yn cael ei ohirio ac y byddai bellach yn cael ei gynnal ym mis Mai. Bydd MR yn ystyried dyddiadau eraill ac yn rhoi gwybod i'r aelodau.</p>